Polisi Cydraddoldeb a Chyfle Cyfartal

Equality and Equal Opportunity Policy

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable

Polisi Cydraddoldeb a Chyfle Cyfartal

1.0 Nodau a Phwrpas Polisi Cyfle Cyfartal

Mae'r ysgol yn sylweddoli bod gorthrwm, anfantais a gwahaniaethu yn bodoli mewn cymdeithas. Mae oedran, anabledd, hil, crefydd, rhyw, hunaniaeth rhyw, tueddfryd rhywiol, cefndir teuluol a/neu iaith unigolyn yn aml yn gallu bod wrth wraidd anoddefgarwch o'r fath a gall llawer o unigolion wynebu gwahaniaethu ar sail mwy nag un o'r ffactorau hyn.

Mae'r Corff Llywodraethwyr yn gosod gwerth ar amrywiaeth ei weithlu ac yn cydnabod bod amrywiaeth yn bodoli ymhlith pobl a chymunedau. Yn y gorffennol mae'r ysgol wedi ymdrechu i weithio i nodi a dileu'r anghydraddoldebau a all ymddangos mewn cymunedau o ganlyniad i'r amrywiaeth yma, ac mae'n ymrwymedig i barhau i weithio dros degwch, rhesymoldeb a chyfiawnder i bawb ym mhob un o'i feysydd cyfrifoldeb.

Fel cyflogwr mae'r ysgol wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau bod y modd y mae'n darparu gwasanaethau a'i arferion cyflogaeth yn bodloni'r safonau cydraddoldeb uchaf posibl.

Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn datgan eto ei ymrwymiad i sicrhau bod ei holl wasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau yn hygyrch ac yn ymatebol i bobl a chymunedau yr ysgol.

Cyfle cyfartal yw hawl pawb i gael cyfleoedd cyfartal, a bod pob unigolyn yn cael ei barchu am bwy ydyw.

1.5 Nodau y polisi yw:

- sicrhau sefydlu a chynnal ethos cynhwysol;
- sicrhau bod yr holl ddisgyblion a staff yn cael eu hannog i gyflawni eu llawn botensial;
- amddiffyn hawliau'r holl ddisgyblion a'r staff, rhieni, llywodraethwyr ac ymwelwyr â'r ysgol;
- sicrhau bod yr ysgol yn fan lle mae pawb, waeth beth fo'u hil, anabledd, crefydd, rhyw, hunaniaeth rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir teuluol a/neu iaith, yn teimlo'u bod yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi;
- paratoi disgyblion ar gyfer heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau byw mewn cymdeithas amrywiol iawn;
- ymrymuso disgyblion i gymryd rhan yn eu cymunedau fel dinasyddion gweithgar sy'n cymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain a thros ei gilydd;
- meithrin ac annog agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at aelodau'r gymuned y mae eu hil, eu rhywioldeb neu eu gallu'n wahanol i'w hun hwy.

2.0 Cyflwyniad

Mae'r datganiad polisi hwn yn amlinellu ymroddiad staff a llywodraethwyr yr ysgol i ofalu bod cydraddoldeb cyfle ar gael i bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- disgyblion
- staff dysgu
- staff cefnogol
- rhieni
- llywodraethwyr
- ymwelwyr â'r ysgol
- myfyrwyr ar brofiad gwaith.

Dylai cyfleoedd cyfartal dreiddio i bob agwedd ar fywyd ysgol, ac maent yn gyfrifoldeb pob aelod o gymuned yr ysgol.

Mae'r datganiad polisi hwn yn adlewyrchu barn gytûn holl gymuned yr ysgol. Mae wedi'i lunio o ganlyniad i drafodaeth o fewn gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr staff sy'n dysgu, staff cefnogol, rhieni, llywodraethwyr a chynrychiolwyr disgyblion.

Cyfrifoldeb pob unigolyn yng nghymuned yr ysgol yw gweithredu'r polisi. Dylai pob aelod o gymuned yr ysgol fod yn ymwybodol fod gan bob unigol hawl i gael ei ystyried yn gyfwerth ac i gael cyfleoedd cyfartal, heb ystyried:

- ethnigrwydd
- rhywedd (gan gynnwys trawsrywedd)
- gallu/anabledd
- HIV/AIDS
- cred
- oed
- statws priodasol
- cenedligrwydd/Dinasyddiaeth
- cyfeiriadedd rhywiol.

3.0 Ethos ac Awyrgylch

Rydym yn ymwybodol bod y rheini sy'n arwain cymuned yr ysgol yn allweddol mewn dangos cyd-barch ymhlith pob aelod o gymuned yr ysgol.

- Dylai awyrgylch agored fod yn yr ysgol sy'n croesawu pawb iddi.
- Anogir y plant i groesawu ymwelwyr i'r ysgol yn gyfeillgar a gyda pharch.
- Mae'r arddangosiadau o gwmpas yr ysgol o safon uchel ac yn adlewyrchu amrywiaeth ar draws pob agwedd o gydraddoldeb cyfle.
- Er ei bod fel arfer yn anodd mynd i mewn at fynedfa'r ysgol, mae'n ddigon rhwydd trefnu i gar fynd ag ymwelwyr anabl at ddrws ysgol.
- Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer anghenion ysbrydol y plant i gyd drwy gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau dosbarth.

4.0 Ymdrin â gwahaniaethu ar sail rhyw neu hil, senoffobia a homoffobia

Mae'r ysgol yn gwrthwynebu pob ffurf ar wahaniaethu ar sail rhyw neu hil, senoffobia a homoffobia, gan gynnwys y ffurfiau hynny sy'n cael eu hanelu at grwpiau a chymunedau crefyddol, ac yn erbyn teithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

5.0 Yr Amgylchedd Dysgu

Mae disgwyliadau uchel gan yr ysgol yn gyson o bob disgybl, waeth beth yw ei oed, rhywedd, ethnigrwydd, gallu na chefndir cymdeithasol. Anogir pob disgybl i wella'i lwyddiannau ei hun ac i beidio â'i fesur ei hun yn erbyn eraill. Hefyd, anogir rhieni i ystyried llwyddiannau eu plant eu hunain yn yr un modd.

- Mae brwdfrydedd athrawon yn ffactor hanfodol i gyflawni lefel uchel o gymhelliant a chanlyniadau da gan bob disgybl.
- Mae'r oedolion yn yr ysgol yn ceisio darparu rolau model da, positif yn eu hymagwedd at bob mater sy'n ymwneud â chydraddoldeb cyfle.
- Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anabledd. Ein nod yw diwallu anghenion dysgu pob disgybl gan gynnwys y mwy abl drwy raglenni gweithio sydd wedi'u hasesu a'u gweinyddu'n ofalus.

- Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd lle mae gan bob disgybl hawl cyfartal i gyrchu'r holl gyfleusterau ac adnoddau.
- Mae pob disgybl yn chwarae rhan go iawn yn eu dysg eu hunain.
- Defnyddir amrediad o ddulliau dysgu drwy'r ysgol i gyd i ofalu bod dysgu effeithiol yn digwydd ym mhob cyfnod i bob disgybl.

6.0 Y Cwricwlwm a Gaiff ei Ddysgu

Ein nod yw sicrhau bod ein cynllunio yn adlewyrchu ein hymroddiad penodol i gydraddoldeb cyfle ym mhob maes pwnc a themâu trawsgwricwlaidd.

Mae ein cynllunio yn ystyried anghenion a chynnydd amrywiol disgyblion.

7.0 Adnoddau a Deunyddiau

Mae darparu adnoddau a deunyddiau o safon dda yn flaenoriaeth uchel. Dylai'r adnoddau hyn:

- adlewyrchu realaeth cymdeithas sy'n amrywio'n ethnig, yn ddiwylliannol ac yn rhywiol
- adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau
- dangos delweddau positif o wrywod a benywod mewn cymdeithas, gan gynnwys pobl ag anableddau
- adlewyrchu delweddau sydd heb fod yn ystrydebol o bob grŵp mewn cyd-destun byd-eang
- cynnwys deunyddiau i godi ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal
- bod yr un mor hygyrch i bob aelodau o gymuned ysgol sy'n gyson ag iechyd a diogelwch
- peidio â chynnwys deunyddiau sy'n amlwg neu'n awgrymog hiliol, rhywiaethol, homoffobig neu oedraniaethol. Mae ein deunyddiau'n ceisio hyrwyddo pob maes o gydraddoldeb.

8.0 Iaith

Rydym yn cydnabod bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn defnyddio iaith briodol:

- nad yw'n cyfleu nac yn cadarnhau ystrydebau
- nad yw'n tramgwyddo
- sy'n creu ac yn gwella delweddau positif o grwpiau penodol a nodir ar ddechrau'r ddogfen hon
- sy'n creu'r amodau i bawb ddatblygu'u hunan-barch
- sy'n defnyddio'r derminoleg gywir wrth gyfeirio at grwpiau neu unigolion penodol.

9.0 Trefnu Dysgu

9.1 Wrth drefnu grwpiau ar gyfer gweithgareddau amrywiol, bydd yr un sydd trefnu bob amser yn ystyried cyfansoddiad y grŵp, i roi cydbwysedd priodol i'r gweithgaredd.

10.0 Ddarpariaeth allgwricwlaidd

10.2 Rydym yn ceisio sicrhau bod pawb nad yw'n staff yr ysgol sy'n dod i gysylltiad â phlant yn cadw at y canllawiau hyn.

11.0 Deddfwriaeth

Rydym wedi'n rhwymo gan ofynion cyfreithiol y ddeddfwriaeth ganlynol:

- *Deddf Hawliau Dynol 1998*

- *Deddf Partneriaeth Sifil 2004*
- *Deddf Cydnabod Rhywedd 2004*
- *Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000*
- *Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995*
- *Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Diwygio) 2003*
- *Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005*
- *Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Awdurdodau Lleol) (Dyletswyddau Statudol) 2005*
- *Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001*
- *Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Pensiynau) 2003*
- *Deddf Comisiwn Hawliau Anabledd 1999 (Diddymwyd)*
- *Deddf Addysg 1996 - Rhan IV*
- *Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oed) 2006*
- *Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Gwahaniaethu ar Sail Rhyw) 2005*
- *Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003*
- *Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003*
- *Deddf Cydraddoldeb 2010*

12.0 Cyfrifoldebau

12.1 Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth a bod y polisi hwn a gweithdrefnau a strategaethau cysylltiedig yn cael eu gweithredu.

12.2 Y Pennaeth sy'n gyfrifol am roi'r polisi ar waith, am sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth briodol, ac am weithredu'n briodol mewn unrhyw achos o wahaniaethu anghyfreithlon.

12.3 Disgwylir i'r holl staff ymdrin â digwyddiadau gwahaniaethu ar sail hil neu ryw neu ddigwyddiadau homoffobig sy'n digwydd, gwybod sut i adnabod a herio stereoteipio neu wahaniaethu; ac ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth i bob agwedd ar eu gwaith.

13.0 Staffio a Datblygu Staff

13.1 Rydym yn cydnabod yr angen am fodelau rôl positif a dosbarthu cyfrifoldeb ymhlith staff. Rhaid i hyn gynnwys galluogi plant i ddod i gysylltiad â chydbwysedd o staff gwryw a benyw ym mhob cyfnod allweddol.

13.2 Rydym yn ymrwymo i annog datblygu gyrfâu a gobeithion pob unigolyn.

13.3 Ein polisi yw darparu hyfforddiant a datblygiad i staff a fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn yr agweddau gwahanol ar gydraddoldeb cyfle.

14.0 Aflonyddu a Bwlio

14.1 Dyletswydd yr ysgol hon yw herio pob math ymddygiad gwahaniaethol e.e. sylw diangen (geiriol neu gorfforol, sylwadau neu awgrymu diangen neu sarhaus am olwg, cymeriad, hil, gallu neu anabledd, rhywioldeb, rhywedd (neu drawsrhywedd) rhywun arall.

14.2 Mae gan yr ysgol weithdrefn glir, gytûn am ddelio â'r rhain.

15.0 Rhieni a'r Gymuned yn Ehangach

15.1 Ein nod yw gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni i helpu pob disgybl i gyrraedd ei botensial.

15.2 Rydym yn dymuno i gadarnhau ein hymroddiad parhaus i ymestyn at grwpiau amrywiol eraill yn ein cymuned gyfagos a'r tu hwnt.

16.0 Monitro ac Adolygu

16.1 Mae cydraddoldeb cyfle yn faes sy'n gofyn am fonitro gofalus a pharhaus yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol.

16.2 Bydd monitro'r canlynol yn galluogi'r ysgol i weld ble mae angen canolbwyntio cydraddoldeb cyfle yn fwy manwl:

- cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol
- gwaharddiadau a thriwantiaeth
- asesu dysg y disgyblion yn barhaol
- digwyddiadau hiliol a rhywiaethol
- canlyniadau sgrinio am anghenion dysgu penodol
- presenoldeb.

17.0 Monitro, gwerthuso ac adolygu'r polisi hwn

Rydym yn casglu, yn astudio ac yn defnyddio data meintiol ac ansoddol yn ymwneud â gweithredu'r polisi hwn, gan addasu a diwygio'r polisi fel bo'n briodol.